Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Beth yw eich barn ar rwydweithiau ynni?

**Taflen ffeithiau 95** 17.12.10 www.ofgem.gov.uk

**RIIO T1 RIIO GD1**

**Er mwyn diogelu cwsmeriaid, mae Ofgem yn ymgynghori nawr ar y ddwy system rheoli prisiau a fydd yn gweithredu ei fodel RIIO newydd ar gyfer rheoleiddio rhwydweithiau.**

**Mae'r daflen hon yn crynhoi'r gwaith hwn ac yn nodi sut y gallwch gymryd rhan.**

## Cefndir: Y Rhwydweithiau Ynni

Mae Ofgem yn rheoleiddio'r cwmnïau monopoli sy'n gweithredu'r rhwydweithiau trydan a nwy. Mae'r cwmnïau hyn yn cynnal y pibellau a'r gwifrau sy'n symud ynni o feysydd nwy neu orsafoedd pŵer i gartrefi a gweithleoedd ledled Prydain. Mae'r cwmnïau hyn yn chwarae rôl allweddol wrth hwyluso'r broses o newid i economi carbon isel.

Mae cartrefi a busnesau yn dibynnu ar y cwmnïau hyn i ddarparu cyflenwadau ynni diogel a dibynadwy.

Mae cynhyrchwyr ynni hefyd yn dibynnu ar y cwmnïau hyn i'w cysylltu yn effeithlon â'r grid. Mae nifer fawr o gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy yn aros i gael eu cysylltu, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell.

Ar yr ochr dosbarthu nwy, mae'r cwmnïau hefyd yn darparu gwasanaeth argyfwng os bydd nwy yn gollwng. Ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth da pan fyddant yn gofyn am gael eu cysylltu.

Mae'r system drawsyrru fel traffyrdd sy'n mynd â nwy pwysau uchel neu drydan foltedd uchel o amgylch y wlad. Y system ddosbarthu yw'r ffyrdd llai sy'n cyflenwi nwy neu drydan i gartrefi pobl.

## Cefndir: RIIO

Yn Hydref 2010 newidiwyd y ffordd rydym yn pennu'r refeniw ar gyfer cwmnïau trawsyrru a dosbarthu ym Mhrydain. Mae'r gyfundrefn newydd, a elwir yn RIIO, yn seiliedig ar Refeniw = Cymhellion + Arloesedd + Allbynnau. Mae'n disodli dull gweithredu rydym wedi bod yn ei ddefnyddio ers 20 mlynedd a wasanaethodd gwsmeriaid yn dda drwy hybu effeithlonrwydd a gwneud y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau bod ein rhwydweithiau yn gweithio'n dda.

Er mwyn sicrhau economi carbon isel bydd angen newid y ffordd y cynhyrchir ac y defnyddir ynni yn sylweddol a bydd angen i'r rhwydwaith addasu yn unol â hynny. Mae RIIO yn annog y cwmnïau i ymateb i'r her o sicrhau sector ynni cynaliadwy am lai o gost na'n dull gweithredu blaenorol. Mae'r dull gweithredu newydd yn annog y cwmnïau i sicrhau bod cwsmeriaid a chynaliadwyedd wrth wraidd yr hyn a wnânt. Mae'n gofyn iddynt fod yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae'n rhoi'r sicrwydd sydd ei angen i annog y buddsoddiad sydd ei angen ar y sector. Ac mae hefyd yn sicrhau na fydd cwsmeriaid yn talu mwy nag sydd angen iddynt ei wneud am wasanaethau rhwydweithiau.

Bydd RIIO yn gwobrwyo cwmnïau sy'n effeithlon ac yn arloesol ac sy'n ymateb i anghenion eu cwsmeriaid. Fodd

## Cefndir: RIIO parhad

bynnag, caiff cwmnïau sy'n methu â bodloni'r disgwyliadau eu cosbi drwy leihau eu refeniw.

Mae'n hanfodol buddsoddi yn ein rhwydweithiau, ond nid mater o wneud mwy yn unig yw hyn. Rydym yn disgwyl i'r cwmnïau wneud mwy o ddefnydd o dechnegau arloesol er mwyn iddynt allu ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i anghenion sy'n newid. Mae angen i'r rhwydweithiau eu hunain fod yn gallach, er enghraifft, fel y gellir cysylltu mwy o safleoedd cynhyrchu trydan. Rydym yn helpu i ysgogi'r chwyldro drwy ariannu prosiectau arloesol. Bydd rhoi arian am waith datblygu arloesol yn awr yn helpu'r rhwydweithiau i addasu a bydd hefyd yn helpu i leihau biliau cwsmeriaid yn y pen draw. Dyma pam mae hyrwyddo ac annog arloesi wrth wraidd RIIO.

## Sicrhau'r ’Allbynnau’ cywir

Mae RIIO yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau fod yn dryloyw ynghylch yr hyn y byddant yn ei ddarparu ac mae'n dwyn y cwmnïau i gyfrif am yr allbynnau hyn. Rydym wedi cynnig allbynnau i'r cwmnïau trawsyrru a'r cwmnïau dosbarthu nwy eu cyflawni yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2021. Byddwn yn adolygu'r allbynnau ar gyfer y cwmnïau dosbarthu trydan yn 2012.

Rydym wedi nodi chwe chategori allbwn allweddol: yr amgylchedd, boddhad cwsmeriaid; cysylltiadau; amcanion cymdeithasol; diogelwch; dibynadwyedd ac argaeledd. Ar gyfer pob categori mae nifer o ymddygiadau yr hoffem eu hannog. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn y dogfennau ymgynghori. Nodir rhai o'r amcanion allweddol rydym yn bwriadu cynnig cymhellion i'w cyflawni isod.

### Amgylchedd

Rydym yn annog cwmnïau i weithio gyda'r diwydiant ehangach i chwarae rhan lawn yn y gwaith o leihau allyriadau carbon a lleihau eu heffaith amgylcheddol eu hunain.

Ymhlith y mesurau rydym yn eu cynnig mae:

- cymhellion i leihau colledion rhwydweithiau a lleihau nwyon megis methan a sylffwr hecsafflworid
- ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau roi gwybod am y gyfran o ynni adnewyddadwy y maent yn ei chludo ar eu rhwydwaith. Rydym yn ymgynghori ynghylch a ddylai fod cymhelliant ariannol ar gyfer perfformiad yn y maes hwn neu wobr bellach am gyfrannu'n gyffredinol at gyflawni amcanion amgylcheddol Prydain Fawr
- ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau roi gwybod am eu hôl troed carbon eu hunain.

### Boddhad cwsmeriaid

Dylai cwmnïau geisio sicrhau lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid ac ystyried barn rhanddeiliaid wrth iddynt redeg eu busnesau o ddydd i ddydd.

Rydym yn bwriadu cyflwyno gwobrau ariannol i gwmnïau sy'n gwneud y canlynol:

- gwneud yn dda mewn arolwg boddhad cwsmeriaid
- yn ymdrin â chwynion yn effeithiol
- yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon.

### Cysylltiadau

Bydd angen i gwmnïau rhwydwaith gysylltu cwsmeriaid yn amserol ac yn effeithlon, gan gynnwys ymateb i anghenion penodol cynhyrchu adnewyddadwy a chwsmeriaid bio-methan. Byddant yn cael eu cosbi os na fyddant yn gwneud y gwaith cysylltu o fewn amserlenni penodol. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt roi gwybodaeth amserol a hawdd ei deall i gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy sydd am gael eu cysylltu.

### Amcanion cymdeithasol

Dylai cwmnïau sicrhau manteision i gymdeithas yn gyffredinol. Rydym yn bwriadu:

- ei gwneud yn ofynnol i'r rhwydweithiau dosbarthu nwy gysylltu cymunedau difreintiedig a chwsmeriaid sy'n dlawd o ran tanwydd os bydd yn effeithlon gwneud hynny. Os na fydd, rydym yn ystyried sut y gallant weithio gyda rhannau eraill o'r diwydiant ynni i ddiwallu anghenion y rhai sy'n dlawd o ran tanwydd.
- ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau wella gwybodaeth am y risgiau sy'n gysylltiedig â gwenwyn carbon monocsid (CO), gan gynnwys rhoi larymau CO i'r rhai sydd mewn perygl, yn amodol ar dreialon a gynhelir yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

### Diogelwch

Byddwn yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael rhwydwaith diogel sy'n cyrraedd safonau diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

### Dibynadwyedd ac argaeledd

Rydym yn sicrhau bod y cwmnïau rhwydwaith yn ddibynadwy yn yr hirdymor yn ogystal â chwtogi ar nifer a hyd unrhyw doriadau i'r cyflenwad a brofir gan gwsmeriaid.

Hoffai Ofgem gael barn cwsmeriaid a grwpiau amgylcheddol ar yr allbynnau hyn. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu'r cymysgedd gorau o allbynnau i bob rhanddeiliad a'r math cywir o gymhellion i annog y cwmnïau i'w cyflawni.

## RIIO: Y manteision ehangach

Mae gwelliannau amgylcheddol wedi'u hymgorffori yn fframwaith RIIO drwyddo draw Mae allbynnau megis cysylltu safleoedd cynhyrchu trydan yn amserol neu ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol yn bwysig iawn er mwyn i'r cwmnïau wneud y newidiadau mawr sydd eu hangen wrth newid i sector ynni carbon isel.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen annog arloesedd er mwyn i ni helpu i sicrhau dyfodol carbon isel. Mae RIIO yn bwriadu gwneud hyn drwy Ysgogiad i Arloesi. Mae'r Ysgogiad i Arloesi yn estyniad i'r Gronfa Rhwydwaith Carbon Isel a sefydlwyd gennym ar gyfer y rhwydweithiau dosbarthu trydan. Mae'r gronfa honno yn rhoi £500 miliwn i alluogi'r cwmnïau i brofi technoleg, trefniadau gweithredu a threfniadau masnachol newydd a all helpu i newid i sector ynni carbon isel. Rydym yn bwriadu darparu £280 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â thrawsyrru trydan yn ystod yr wyth mlynedd nesaf a bydd cronfa werth £400 miliwn ar gael ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â thrawsyrru nwy a dosbarthu nwy.

## Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Rydym wrthi'n ymgynghori ar ein safbwyntiau cychwynnol ar yr allbynnau ac ar agweddau eraill ar y fframwaith rheoli prisiau ar gyfer y cwmnïau trawsyrru nwy a thrydan (RIIO-T1) ac ar gyfer y cwmnïau dosbarthu nwy (RIIO-GD1). Dyma'r ddau adolygiad cyntaf sy'n cymhwyso'r fframwaith RIIO. Maent yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2013 a 2021 ar gyfer trawsyrru a dosbarthu nwy.

Mae'n bwysig iawn bod yr holl bartïon â diddordeb, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli grwpiau cwsmeriaid a grwpiau amgylcheddol, yn chwarae rhan lawn yn y broses ymgynghori. Un o'r ffyrdd gorau o gymryd rhan yw drwy ymateb i'n dogfennau ymgynghori a geir yn http://www.ofgem.gov.uk/Networks/Trans/PriceControls/RIIOT1/ConRes/Pages/ConRes.aspx a http://www.ofgem.gov.uk/Networks/GasDistr/RIIOGD1/ConRes/Pages/ConRes.aspx. Ein nod cyffredinol yw gofyn i bobl a oes gennym y cydbwysedd cywir o allbynnau a pholisïau yn RIIO i sicrhau sector ynni cynaliadwy a gwasanaethau rhwydwaith sy'n cynnig gwerth am arian yn yr hirdymor i gwsmeriaid presennol a chwsmeriaid yn y dyfodol.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol i ddatblygu'r trefniadau hyn. Rydym yn croesawu sylwadau partïon â diddordeb ar unrhyw un o'r materion a nodir yn y daflen ffeithiau hon. Yn ogystal ag ymateb i ddogfennau ymgynghori gall rhanddeiliaid rannu eu safbwyntiau mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- Gweithdai: Byddwn yn cynnal gweithdai i ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd i drafod y materion
- Cyfarfodydd dwyochrog: Mae Ofgem yn fodlon cynnal cyfarfodydd un i un â rhanddeiliaid.
- Fforwm Adolygu'r System Rheoli Prisiau: Bydd y fforwm hwn yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod yr adolygiadau i lywio ein gwaith. Mae'r grŵp yn cynnwys croestoriad o gynrychiolwyr rhanddeiliaid a dylai'r sawl sydd am ymuno ag ef gysylltu ag Ofgem.

Ceir rhagor o wybodaeth am broses ymgysylltu â rhanddeiliaid Ofgem yn:
www.ofgem.gov.uk/Networks/PriceControls/Pages/PriceControls.aspx

Os hoffech drafod sut y gallwch gymryd rhan yn yr adolygiadau o'r system rheoli prisiau neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost i RIIO.T1@ofgem.gov.uk (ar gyfer trawsyrru trydan a nwy) neu RIIO.GD1@ofgem.gov.uk (ar gyfer dosbarthu nwy).

## Y Camau Nesaf

Ar ddiwedd mis Mawrth 2011 byddwn yn cadarnhau'r strategaeth ar gyfer camau nesaf RIIO-T1 a RIIO-GD1. Bydd angen i'r cwmnïau gyflwyno eu cynlluniau busnes i ni erbyn diwedd mis Gorffennaf 2011. O dan RIIO rydym yn disgwyl i'r cwmnïau rhwydwaith arwain y broses o ymgysylltu â'u rhanddeiliaid, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, er mwyn iddynt ddeall beth y mae eu cwsmeriaid yn rhoi gwerth arno. Bydd hyn yn helpu'r cwmnïau i ddatblygu eu cynlluniau busnes ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2021.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

| | | |
|---|---|---|
| **Chris Lock, Uwch Swyddog Cyfathrebu** | 020 7901 7225 | e-bost chris.lock@ofgem.gov.uk |
| **Alison Wright, Swyddog Cyfathrebu** | 020 7901 7217 | e-bost alison.wright@ofgem.gov.uk |